**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun Mai 20fed 2019 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng Rob Parkes (Cadeirydd), Alyn Ashworth (Is-gadeirydd), Gaynor Morgan Rees, Philip Stevens, Dyfrig Berry, Lara Pritchard & Irene Williams; & Jenny Barlow (Clerc Y Dref)

**Ymddiheuriadau:** Dim

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Mai.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Ebrill 2019.**

3. **Materion yn codi** –
   **Penodi cadeirydd a dirprwy gadeirydd.**

   **Cadeirydd** - Cynigiodd y Cyng Cyfrig Berry Cyng Rob Parkes, ac eiliwyd hyn gan y Cyng Philip Stevens. Cytunwyd ar hyn gan bob cynghorydd tref.
   **Dirprwy -** Cynigiodd y Cyng Rob Parkes y Cyng Alyn Ashworth, ac eiliwyd hyn gan y Cyng Philip Stevens. Cytunwyd ar hyn gan holl gynghorwyr y dref.
   Derbyniodd y Cyng Rob Parkes ac Alyn Ashworth y swyddi.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y cais isod

   (1) 01/2019/0395
   17 Bryn Onnen, Dinbych
   Codi estyniad i'r annedd.

   Nid oedd gan y cynghorwyr tref wrthwynebiad i'r cais uchod, ond fe hoffent nodi bod y cynlluniau diwygiedig o'r llynedd yn dal yn agos iawn i'r eiddo cyfagos. Roedd y gwrthwynebiad y llynedd am y rheswm hwn gan Gyngor Sir Ddinbych.

   (2) 01/2019/0420
   28 Bryn Seion, Dinbych.
   Codi estyniad cefn unllawr.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.38yh.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………